Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

David Howes
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Abertawe

Dyddiad: 19/06/2026

Annwyl Mr Howes,

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Cyngor Abertawe**

Mae'r llythyr hwn yn nodi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 16 ac 19 Mawrth 2026. Diben yr archwiliad oedd adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wrth arfer eu dyletswyddau a'u swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, llinellau ymholi allweddol a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r egwyddorion hyn, sef: Pobl – llais a rheolaeth; Atal; Llesiant; a Phartneriaethau.

**Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

**Pobl – llais a rheolaeth**

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, a gefnogir gan weithlu sefydlog a medrus sy'n gallu cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel i blant?

**Atal**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

**Llesiant**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed*?*

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei drefniadau cynllunio, comisiynu a goruchwylio yn darparu lleoliadau digonol, addas a diogel i blant, a bod unrhyw drefniadau amgen neu frys yn parhau i ddarparu cynlluniau gofal cyson a phwrpasol sydd wedi'u cydgysylltu'n dda ac sy'n diwallu anghenion a aseswyd pob plentyn?

**Partneriaeth**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod dulliau amlasiantaethol ar waith i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd pobl yn camfanteisio arnynt neu sy'n profi achosion o gamfanteisio, i ymgysylltu â nhw ac i'w diogelu, a bod pob asiantaeth mewn sefyllfa i reoli risgiau cyd-destunol a deall rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio?

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Mae gan yr awdurdod lleol ffocws cryf ar brofiad bywyd plant ac ymrwymiad clir i ymarfer cydberthnasol sy'n seiliedig ar gryfderau.

Disgrifiodd ymarferwyr, arweinwyr a phartneriaid wasanaeth sy'n fyfyriol, yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ymrwymedig i ddysgu a gwella. Mae diwylliant wedi'i ysgogi gan werthoedd yn sail i hyn lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u cymell i wneud y peth iawn i blant.

3.2 Mae'r arweinwyr yn weladwy ac yn hygyrch, ac anogir chwilfrydedd proffesiynol a her adeiladol. Daw fforymau myfyriol amlddisgyblaethol ag ymarferwyr a phartneriaid ynghyd i rannu cyfleoedd dysgu, i brofi risgiau ac i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau.

3.3 Mae fframwaith ymarfer cydlynol yn cefnogi cysondeb ar draws gwasanaethau plant. Mae'r dull Arwyddion Diogelwch wedi'i wreiddio'n ddwfn ac fe'i nodweddir gan iaith a dulliau a rennir a ddefnyddir gan ymarferwyr a phartneriaid, gan gefnogi asesiadau cytbwys, prosesau cynllunio diogelwch clir ac ymdrechion ystyrlon i gynnwys teuluoedd a rhwydweithiau, a chryfhau dealltwriaeth a rennir ar draws asiantaethau.

3.4 Mae prosesau i annog cyfranogiad ac i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gyda thystiolaeth bod safbwyntiau yn llywio gwaith cynllunio unigol a gwelliannau i wasanaethau.

3.5 Caiff dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar eu cefnogi gan drefniadau drws ffrynt a llwybrau integredig cydlynol. Mae gan y gwasanaeth dîm Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) amlasiantaethol sy'n helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir ac i fyw bywydau hapus, iach a diogel.

3.6 Caiff arferion diogelu eu cefnogi gan drefniadau amlasiantaethol sefydledig. Mae trafodaethau strategaeth ac ymholiadau Adran 47 yn cael eu datblygu mewn modd amserol pan gyrhaeddir trothwyon, wedi'u cefnogi gan brosesau rhannu gwybodaeth cydlynol a fforymau amlasiantaethol effeithiol, gyda threfniadau cydweithio cryf rhwng yr holl dimau mewnol o ddydd i ddydd.

3.7 Mae'r trefniadau partneriaeth ar gyfer camfanteisio a risg y tu allan i'r cartref yn gryfder amlwg. Mae partneriaid yn disgrifio trefniadau hygyrch ac ymatebol sy'n cefnogi cydberchnogaeth mewn perthynas â risg, camau gweithredu cydgysylltiedig a her broffesiynol effeithiol. Mae'r ymateb ar y cyd hwn i risg gyd-destunol yn cryfhau'r hyder bod gweithgarwch diogelu wedi'i gydgysylltu ar draws asiantaethau.

3.8 Nododd yr archwiliad sicrwydd feysydd i'w gwella, sy'n gysylltiedig ag amseroldeb dogfennaeth cynadleddau ac adolygiadau a'r defnydd cyffredinol o gronolegau i gefnogi dadansoddiadau cronnus. Mae'r ymarferwyr a phartneriaid yn disgrifio anghysondeb yn y ffordd y caiff trothwyon eu cymhwyso wrth i bryderon ddatblygu, ac mae'r pwysau o

ran digonolrwydd lleoliadau yn parhau i gyfyngu ar fynediad i leoliadau cofrestredig addas.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Pobl – llais a rheolaeth – gwnaethom ofyn:**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, a gefnogir gan weithlu sefydlog a medrus sy'n gallu cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel i blant?**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir a rennir o wneud '*yr hyn sy'n bwysig i wneud pethau'n well i blant, pobl ifanc a theuluoedd.'* Mae'r ymarferwyr yn disgrifio dealltwriaeth ar y cyd o sut mae'r weledigaeth hon yn cefnogi cynlluniau strategol ac arfer gorau. Mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu o amgylch Pobl, Atal a Sefydlogrwydd, gan ddod â'r gweithlu a diwylliant, help cynnar ac atal argyfyngau, a chynllunio sefydlogrwydd ynghyd i gefnogi ffocws system gyfanar ganlyniadau.

4.2 Mae arferion cydberthnasol, seiliedig ar gryfderau wedi'u hymgorffori ar draws gwasanaethau plant. Mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn gweithio yn ôl dull a rennir sy'n cefnogi chwilfrydedd proffesiynol, goruchwyliaeth fyfyriol a her adeiladol, gan hyrwyddo cysondeb wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod profiadau bywyd plant yn parhau'n rhan greiddiol o'r gwaith cynllunio.

4.3 Mae Arwyddion Diogelwch wedi'i ymgorffori fel fframwaith ymarfer a rennir ac mae'n darparu iaith ymarfer gyson i deuluoedd, ymarferwyr a phartneriaid. Mae'r ymarferwyr yn cydbwyso cryfderau a phryderon, yn datblygu cynlluniau diogelwch ac yn adolygu cynnydd. Mae'r dull yn cryfhau asesiadau risg ac yn gwella cyfranogiad plant a theuluoedd mewn cynlluniau i gadw eu plentyn/plant yn ddiogel. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.4 Mae'r arweinwyr yn aros yn weladwy ac yn hygyrch. Mae trefniadau goruchwylio yn sicrhau bod yr arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad ag ymarfer rheng flaen ac yn eu helpu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg mewn ffyrdd sy'n eu helpu i ddysgu a gwella. Mae'r ymatebion i'r arolwg i ymarferwyr yn atgyfnerthu hyn,

gyda 96% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan reolwyr.

4.5 Mae'r awdurdod lleol yn cynnwys ymarfer myfyriol fel rhan o'r prosesau goruchwylio ac yn ei ddefnyddio i helpu ymarferwyr i fyfyrio ar ymarfer a chynnal proses gwneud penderfyniadau ddiogel.. Mae 93% o'r ymarferwyr a ymatebodd i arolwg AGC yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod prosesau goruchwylio yn eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer.

4.6 Caiff cyfleoedd dysgu a datblygu eu cryfhau drwy'r Tîm Dysgu ac Arloesi, sy'n cydlynu canllawiau ymarfer, gwybodaeth am berfformiad a gweithgareddau gwella ar draws gwasanaethau plant. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn ymarferol ac yn hygyrch. Er enghraifft, ceir canllaw ymarfer A-Z sy'n cefnogi ymarfer cyson.

4.7 Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn parhau i fod yn her mewn rhannau o'r gwasanaeth. Mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â hyn drwy ei Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff glir, sy'n nodi dull gweithredu "tyfu ein hunain" a llwybrau strwythuredig ar gyfer sefydlu, datblygu a chynnydd. Mae hyn yn cynnwys model yr Academi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a dysgu gan gymheiriaid a chymorth myfyriol sy'n cryfhau hyder cynnar ac yn helpu ymarferwyr i ddatblygu'n ddiogel mewn gwaith cymhleth, gan gefnogi parhad i blant a theuluoedd.

4.8 Mae'r ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i blant a theuluoedd ac yn cyfathrebu â thosturi, gan gynnwys yn y ffordd y maent yn cofnodi amgylchiadau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cynnal ffocws sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn sefyllfaoedd cymhleth ac yn rhoi sylw parhaus i hunaniaeth, profiadau a llesiant plant. Mae'r arweinwyr yn modelu ac yn cefnogi'r arfer hwn drwy fforymau arweinyddiaeth a fforymau myfyriol hygyrch sy'n cydnabod gofynion emosiynol gwaith diogelu ac yn darparu cyfleoedd i ddysgu a meithrin gwydnwch.

4.9 Mae'r ymarferwyr yn casglu safbwyntiau plant drwy waith uniongyrchol cyson a chreadigol ac yn defnyddio'r safbwyntiau hynny i lywio asesiadau a chynlluniau. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) yn chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo a chynnal cyfranogiad plant, gan gynnwys annog plant i fynychu eu hadolygiadau lle bynnag y bo modd a chytuno ar ffyrdd ymarferol i blant gyfrannu pan nad yw'n bosibl iddynt fod yn bresennol. Mae'r plant yn derbyn llythyrau sy'n addas i blant yn dilyn adolygiadau, ac mae'r ymarferwyr a'r Cadeiryddion yn paratoi plant i rannu barn mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau gweledol a chreadigol a dulliau cyfathrebu sy'n addas i blant er mwyn helpu plant i esbonio eu profiadau a deall cynlluniau. **Mae'r ffocws cyson a systematig hwn ar gasglu safbwyntiau plant ac ymateb iddynt ac ar alluogi plant i gymryd rhan yn y gwaith cynllunio, yn arfer cadarnhaol.**

**Meysydd i'w Gwella**

Mae'r arweinwyr yn disgrifio trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd sy'n cyfuno prosesau goruchwylio perfformiad â gweithgarwch adolygu ansoddol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn i'w gweld yn gyson yn y cofnodion gofal cymdeithasol. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau'r broses o gadw cofnodion i gael gwell tystiolaeth bod gweithgarwch goruchwylio ac archwilio gan y rheolwyr yn effeithio ar ymarfer a chanlyniadau i bobl.**

4.10 Nid yw system cofnodi achosion electronig yr awdurdod lleol bob amser yn cefnogi gwaith cofnodi effeithlon ac ymarferol. **Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu newid i system rheoli achosion newydd; yn y cyfamser, dylai gryfhau'r trefniadau lliniaru fel y gall ymarferwyr gofnodi, adfer a dangos tystiolaeth o wybodaeth allweddol yn gyson yn y cofnodion gofal cymdeithasol.**

**Atal – Gwnaethom ofyn:**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?**

**Cryfderau**

4.11 Mae atal yn flaenoriaeth strategol glir ac mae rhaglen trawsnewid yr awdurdod lleol wedi alinio gwasanaethau help cynnar, gwasanaethau atal argyfyngau a gwasanaethau wedi'u targedu i greu llwybrau cydlynol. Mae hyn yn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cyngor, arweiniad a chymorth yn gynharach a bod ymyriadau statudol yn lleihau lle bo'n ddiogel gwneud hynny.

4.12 Mae'r Pwynt Cyswllt Unigol yn sgrinio ac yn cyfeirio cysylltiadau i'r ymateb cywir, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth, help cynnar, asesiadau statudol a llwybrau diogelu. Mae hyn yn sicrhau proses gwneud penderfyniadau gyson ac amserol, gyda 98% o benderfyniadau yn cael eu gwneud o fewn un diwrnod gwaith.

4.13 Mae gwasanaethau help cynnar ac atal yn darparu ystod amserol o ymyriadau wedi'u targedu sy'n helpu i ymgysylltu'n gynharach ac yn atal problemau rhag gwaethygu lle bo'n ddiogel gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau ar gyfer risg cyn geni, rhianta a newid teuluol, defnyddio sylweddau a cham-drin domestig. Ceir hefyd model cofleidiol sy'n dwyn ynghyd waith cymdeithasol, cymorth i deuluoedd a mewnbwn therapiwtig. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.14 Mae'r awdurdod lleol yn ymgorffori dull gweithredu ystyriol o drawma mewn gwaith ataliol. Mae'r ymarferwyr yn cydnabod sut y gall adfyd lywio ymddygiad

plant a rhieni ac yn ymateb mewn ffyrdd sy'n lleihau cywilydd ac yn eu helpu i ymgysylltu. Adlewyrchir y dull hwn yn nhôn ac iaith yr asesiadau, sy'n parhau i fod yn dosturiol ac yn anfeirniadol, ac mae'n cefnogi ymyriadau sy'n seiliedig ar gydberthnasau sy'n helpu teuluoedd i gynnal newid.

4.15 Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio straeon bywyd a gwaith sy'n canolbwyntio ar hunaniaeth i helpu plant sydd â phrofiad o ofali ddeall eu hanes a chynnal ymdeimlad cydlynol ohonyn nhw eu hunain. Mae'r cofnodion gofal cymdeithasol yn cynnwys llyfrau straeon bywyd a llythyrau, ochr yn ochr â blychau atgofion a llythyrau nes ymlaen mewn bywyd, ac mae'r ymarferwyr yn diweddaru'r gwaith hwn wrth i'r plant dyfu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cefnogi llesiant emosiynol.

4.16 Mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgysylltiad drwy gymorth dan arweiniad y teulu sy'n dibynnu ar gytundeb a phwrpas cyffredin, gan nodi ymatebion cymesur sy'n cadw plant o fewn eu teuluoedd lle bo hyn yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn datblygu cynlluniau gyda theuluoedd yn seiliedig ar ganlyniadau clir, yn monitro cynnydd yn rheolaidd ac ar y cyfan, yn addasu help yn gyflym wrth i amgylchiadau newid.

4.17 Mae'r awdurdod lleol yn datblygu ei gynnig therapiwtig fel rhan o ddull gwasanaeth cyfan ehangach, gan gynnwys buddsoddi mewn tîm therapiwtig mewnol sy'n cefnogi ymarfer ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau plant. Mae mewnbwn therapiwtig yn ategu ymarfer gwaith cymdeithasol gyda rhieni a phlant, gan gynnwys cefnogi gwasanaethau i weithio mewn ffordd fwy therapiwtig gyda rhieni ac i fabwysiadu dull sy'n rhoi mwy o ystyriaeth i emosiynau yn ystod amser teuluol. Mae'r cynnig hwn sy'n datblygu hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r ymarferwyr ymgynghori a chael arweiniad, gan gefnogi ymatebion mwy myfyriol a chydberthnasol i gymhlethdod.

4.18 Mae llwybrau Mewn Gofal o'u Geni a JIG-SO yn cryfhau ymyriadau cynnar ar gyfer babanod yn y groth. Maent yn darparu cymorth cynenedigol ac ôl-enedigol cynnar, dwys a pharhaus sy'n dwyn ynghyd ymyriadau arbenigol gan fydwragedd ac ym maes rhianta, ochr yn ochr â gwasanaethau statudol. Mae JIG-SO yn dechrau chwarae rhan yn gynnar yn ystod beichiogrwydd ac yn parhau i chwarae rhan ar ôl i'r baban gael ei eni, gydag ymweliadau cydgysylltiedig a chyfranogiad gweithredol mewn prosesau amddiffyn plant, sy'n arwain at reoli risgiau drwy gymorth dwyster uchel, gwaith monitro a meithringallu. **Mae hwn yn arfer cadarnhaol sy'n sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar atebion a dull sy'n seiliedig ar gryfderau wrth weithio gyda phlant yn y groth a phlant newydd-anedig.**

4.19 Mae'r Hwb Cam-drin Domestig yn darparu ymateb teulu cyfan sy'n cefnogi gwaith cynllunio amlasiantaethol cydgysylltiedig ac yn rhoi ymyriadau cam-drin domestig wedi'u targedu ar waith. Mae'r ymateb amlochrog hwn i gam-drin

domestig yn **arfer cadarnhaol** sy'n sicrhau ymatebion amserol, cymesur ac arbenigol i angen.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.20 Mae prosesau camui fyny i ymyriadau statudol a chamu i lawr i gymorth cyffredinol neu ataliol yn cael eu cymhwyso'n briodol ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn derbyn ymateb sy'n gymesur â'r risg a'r angen. Gwnaethom nodi rhai cofnodion gofal cymdeithasol lle nad oedd y camau uwchgyfeirio yn amserol gan fod y risg wedi cronni dros amser. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau prosesau ar gyfer ailbrofi trothwyon mewn ffordd gyson wrth i niwed cronnus ddatblygu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau camu i fyny yn amserol a bod plant yn derbyn y lefel gywir o amddiffyniad ar yr adeg gywir.**

4.21 Nid yw gwybodaeth gronolegol i'w gweld yn gyson nac yn cael ei defnyddio fel offeryn dadansoddol i sicrhau cyd-ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd wedi digwydd dros amser, gan gynnwys deall niwed cronnus, yn enwedig pan fydd achosion yn symud rhwng timau neu weithwyr. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau sut y caiff gwybodaeth gronolegol ei chofnodi a'i chyflwyno fel y gall lywio asesiadau, gwaith cynllunio a phenderfyniadau fel mater o drefn.**

**Llesiant – Gwnaethom ofyn**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei drefniadau cynllunio, comisiynu a goruchwylio yn darparu lleoliadau digonol, addas a diogel i blant, a bod unrhyw drefniadau amgen neu frys yn parhau i ddarparu cynlluniau gofal cyson a phwrpasol sydd wedi'u cydgysylltu'n dda ac sy'n diwallu anghenion a aseswyd pob plentyn?**

**<u>Cryfderau</u>**

4.22 Mae'r awdurdod lleol yn dangos diwylliant diogelu clir a sefydledig, gyda phrosesau ymgysylltu amlasiantaethol gweithredol ac effeithiol mewn fforymau diogelu allweddol. Mae'r ymarferwyr a phartneriaid yn disgrifio prosesau rhannu gwybodaeth amserol ac ymatebion cydgysylltiedig i risg ar y cyfan, gan gefnogi perchnogaeth a rennir a phroses gwneud penderfyniadau y gellir ei chyfiawnhau. Mae'r arweinwyr yn goruchwylio gweithgarwch diogelu ac yn gosod disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo hyder proffesiynol ac ymatebion cymesur. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adborth o'r arolwg i ymarferwyr, gyda 98% o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr ymarfer diogelu yn effeithiol.

4.23 Mae cynlluniau diogelwch yn gytbwys ac yn bwrpasol, gan nodi'n glir y risgiau a'r cryfderau. Datblygir y rhain ar y cyd â rhieni, gofalwyr a rhwydweithiau ehangach. Mae'r cynlluniau yn defnyddio cymorth estynedig gan y teulu a'r gymuned ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir a hygyrch, gan alluogi plant a'r rhai o'u cwmpas i ddeall beth sydd angen digwydd i'w cadw'n ddiogel. Mae'r **arfer cadarnhaol** hwn yn cefnogi dulliau cymesur o reoli risg a llunio cynlluniau wrth gefn.

4.24 Mae Cynadleddau Amddiffyn Plant ac Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn amserol ar y cyfan ac yn cael eu mynychu'n gyson gan yr asiantaethau partner perthnasol, gyda ffocws clir ar hyrwyddo diogelwch a llesiant plant. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynychu eu hadolygiadau ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth, gan gynnwys trwy baratoi gyda Chadeiryddion cyn cynadleddau ac adolygiadau. Mae'r plant yn derbyn llythyrau sy'n addas i blant yn dilyn adolygiadau sy'n esbonio'r penderfyniadau a'r camau nesaf yn glir. Cynigir cyfleoedd i rieni a gofalwyr, a lle y bo'n briodol i blant, rannu eu barn yn uniongyrchol â Chadeiryddion Cynadleddau, ac mae'n gadarnhaol bod nifer y plant sy'n mynychu eu hadolygiadau yn parhau i gynyddu. At ei gilydd, caiff teuluoedd eu cefnogi drwy brosesau amddiffyn plant â chydbwysedd priodol o ddidwylledd, dyngarwch a phartneriaeth weithredol.

4.25 Mae'r ymarferwyr yn ymateb i atgyfeiriadau diogelu yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cefnogir y broses gwneud penderfyniadau drwy rannu gwybodaeth amserol a thrwy ymgysylltiad amlasiantaethol effeithiol. Caiff risgiau eu nodi a'u hasesu a gweithredir arnynt heb oedi diangen. Mae camau gweithredu, perchnogaeth ac amserlenni clir yn cael eu pennu adeg uwchgyfeirio, a chaiff y trefniadau eu haddasu wrth i amgylchiadau newid er mwyn cynnal ffocws ar ddiogelwch a llesiant plant.

4.26 Mae tîm Coll, Camfanteisio a Masnachu Cyd-destunol (CMET) pwrpasol yn darparu swyddogaeth goruchwylio a chydgysylltu ar gyfer risg y tu allan i'r cartref. Mae llwybrau diffiniedig yn cefnogi camau diogelu amserol pan fydd risg y bydd pobl yn camfanteisio ar blant, y bydd plant yn mynd ar goll neu'n wynebu risg gyd-destunol ehangach, gan gynnwys defnyddio trafodaethau strategaeth, ymholiadau Adran 47 a dulliau gweithredu mewn perthynas â risg y tu allan i'r cartref lle caiff niwed sylweddol ei nodi y tu hwnt i amgylchedd y teulu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod ymatebion diogelu yn amserol ac yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant plant.

4.27 Mae'r awdurdod lleol wedi profi pwysau anrhagweladwy yn deillio o leoliadau dirybudd ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches gan awdurdodau lleol eraill, lle mae pobl ifanc wedi cyrraedd heb i'r awdurdod gael ei hysbysu ymlaen llaw ac heb unrhyw ymgynghori. Mae hyn yn cynyddu'r galw am ddiogelu, gan gynnwys achosion o blant yn mynd ar goll a'r risg gyd-destunol gysylltiedig. Mae ymateb yr awdurdod lleol yn parhau i ganolbwyntio

ar y plentynac yn ystwyth. Lle bo angen, caiff pobl ifanc eu hintegreiddio'n brydlon i lwybrau ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a llwybrau camfanteisio er mwyn mynd i'r afael ag anghenion diogelu a llesiantcyn gynted â phosibl. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod plant yn derbyn ymateb diogelu amserol er gwaethaf pwysau cymhleth sy'n gysylltiedig â ffactorau allanol.

**Meysydd i'w Gwella**

4.28 Mae'r pwysau o ran digonolrwydd lleoliadau yn golygu bod rhai plant yn derbyn llety ynghyd â gofal o dan drefniadau â gwasanaethau cartrefi gofal heb eu cofrestru, yn groes i'r gofyniad cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae digonolrwydd lleoliadau yn bwysau cydnabyddedig ar y system ac wedi'i nodi fel mater difrifol ar draws tirwedd ehangach gwasanaethau plant. Mae'r broses ar gyfer llywodraethu a goruchwylio penderfyniadau lleoli yn glir, gyda threfn ddiffiniedig ar gyfer awdurdodi gan uwch-swyddog ac ar gyfer adolygiadau rheolaidd lle bo trefniadau eithriadol yn codi. Mae gwaith cynllunio yn sicrhau bod gan drefniadau brys ac amgen ffocws penodol a'u bod yn cynnwys terfynau amser, , gyda phroses oruchwylio weithredol a phroses ar gyfer cynllunio camau symud ymlaen er mwyn helpu i drosglwyddo'r plentyn i ddarpariaeth reoleiddiedig. Yn ystod yr archwiliad sicrwydd, gwelodd AGC dystiolaeth o ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn o sefydlogi lleoliadau a rheoli risg lle nad oedd lleoliad cofrestredig addas ar gael ar unwaith, ochr yn ochr â ffocws cyson ar sicrhau darpariaeth reoleiddiedig cyn gynted â phosibl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli mewn gwasanaethau cofrestredig a dylai barhau i gryfhau ei allu i nodi a sicrhau lleoliadau cofrestredig priodol, gan gynnwys bwrw ymlaen â chofrestru a rhoi camau trosglwyddo amserol ar waith pan fo trefniadau anghofrestredig eithriadol yn codi.**

4.29 Ni chaiff dogfennaeth cynadleddau ac adolygiadau ei rhannu'n gyson o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Mae hyn yn cynnwys darparu adroddiadau cynhadledd i rieni yn hwyr, weithiau'n rhy agos at y cyfarfod iddynt allu paratoi'n effeithiol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**

4.30 Mae asiantaethau partner yn nodi nad yw'r adborth a geir yn dilyn y ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu bob amser yn amserol nac yn gyson. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu adborth amserol a chymesur i asiantaethau partner yn dilyn hysbysiadau o dan y ddyletswydd i roi gwybod am bryderon.**

**Partneriaeth – Gwnaethom ofyn:**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl?**

**I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod dulliau amlasiantaethol ar waith i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd pobl yn camfanteisio arnynt neu sy'n profi achosion o gam-fanteisio, i ymgysylltu â nhw ac i'w diogelu, a bod pob asiantaeth mewn sefyllfa i reoli risgiau cyd-destunol a deall rhwydweithiau sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio?**

**<u>Cryfderau</u>**

4.31 Mae gweithio mewn partneriaeth integredig yn nodwedd sefydledig o'r gwasanaeth. Mae timau mewnol yn cydgysylltu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn amserol ac ar gyfer gwneudpenderfyniadau mewn modd cydgysylltiedig. Ym mhob rhan o'r bartneriaeth ehangach, mae cydweithwyr o'r heddlu, gwasanaethau iechyd ac addysg yn cyfrannu at waith cynllunio ac yn sicrhau y caiff pryderon eu nodi ac y ceir ymateb cyflym iddynt.

4.32 Mae cyfranogiad yn nodwedd glir a sefydledig o'r gwasanaeth, gyda barn plant yn dylanwadu ar waith cynllunio, adolygiadau a datblygiad gwasanaethau drwy amrywiaeth o ddulliau seiliedig ar arfer o dan arweiniad y gwasanaeth. Mae Strategaeth Cyfranogiad yr awdurdod lleol yn darparu fframwaith a rennir sy'n dod â'r gweithgarwch hwn ynghyd, gan egluro sut y bydd barn plant yn llywio penderfyniadau, sut y bydd adborth yn cael ei roi, ac yn disgrifio nodweddion ymarfer cyson ar draws timau. Mae hyn yn cefnogi dull cyfranogi cydlynol, gan sicrhau bod cyfranogiad plant yn bwrpasol ac yn gysylltiedig â'r penderfyniadau a wneir yn hytrach nag yn weithgaredd ymgysylltu annibynnol.

4.33 Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni yn nodwedd ddiffiniol o wasanaeth Reflect, sy'n cefnogi gwaith cynllunio parchus a chydweithredol pan na fydd plant yn gallu aros yng ngofal eu rhieni. Mae Reflect yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i rieni ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, deall penderfyniadau a chyfrannu'n ystyrlon at waith cynllunio, gan gynnal ffocws clir ar anghenion y plentyn a therfynau amser. Gall cyfranogiad Reflect barhau y tu hwnt i gyd-destunau cyn-geni a gall gefnogi rhieni tua diwedd yr achos, gan gynnwys drwy gysylltiadau â gwasanaethau amser teuluol, gan helpu rhieni i barhau i ymgysylltu yn ystod proses gwneud penderfyniadau sensitif iawn. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.34 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r gwasanaethau iechyd drwy ei ddull Mewn Gofal o'u Geni. Mae ymarferwyr iechyd, bydwreigiaeth a gofal cymdeithasol yn gweithio fel rhan o drefniadau a rennir sy'n cefnogi prosesau asesu ar y cyd, rhannu gwybodaeth a chynllunio cydlynol o gam cynnar. Mae'r trefniadau partneriaeth hyn yn hyrwyddo atebolrwydd a rennir, parhad cyfranogiad proffesiynol a goruchwyliaeth glir ar y cyd, gan sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei llywio gan

ddealltwriaeth lawn o ystyriaethau iechyd, ystyriaethau datblygiadol ac ystyriaethau diogelu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod gwaith cyn-geni yn cael ei lywio gan wahanol asiantaethau a bod yr asiantaethau hynny yn cymryd perchnogaeth ar y cyd dros y broses, yn hytrach na phroses wedi'i harwain gan un gwasanaeth. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.35 Mae gwaith partneriaeth strategol cadarn yn sail i ddull gweithredu'r awdurdod lleol mewn perthynas â chamfanteisio a diogelu cyd-destunol. Mae asiantaethau'n rhannu dealltwriaeth gyffredin bod angen ymateb ar y cyd mewn perthynas â risg y tu allan i'r cartref, gyda chyfrifoldeb yn nwylo'r system gyfan yn hytrach na gwasanaethau unigol. Mae trefniadau partneriaeth yn helpu i gyd-flaenoriaethu risg gyd-destunol ac i drefnu rolau ac yn rhoi eglurder ynghylch sut mae asiantaethau'n cyfrannu at weithgarwch atal, tarfu a diogelu. Mae hyn yn gwella prosesau o oruchwylio niwed y tu allan i'r teulu ym mhob rhan o'r system ac yn cefnogi ymatebion cydlynol i batrymau risg sy'n dod i'r amlwg.

4.36 Ar lefel weithredol, mae partneriaid yn cydweithio i ymateb i risg gyd-destunol drwy weithgareddau cydlynol, seiliedigar leoliad ac sy'n canolbwyntio ar rwydwaith. Mae asiantaethau'n cysoni eu camau gweithredu ar draws meysydd gorfodi, tarfu, cymorth ac ymgysylltu, gan gydnabod bod angen ymyriadau ar y cyd gan leoliadau cymunedol yn ogystal â chynlluniau unigol er mwyn lleihau niwed. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi partneriaid i weithredu'n gyflym wrth i risg newid, cynnal parhad ymateb ac osgoi gweithgarwch tameidiog neu ddyblygol. O ganlyniad, mae ymatebion i gamfanteisio a risg y tu allan i'r cartref wedi'u seilio ar gamau gweithredu ar y cyd a chyfrifoldeb cyfunol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.37 Croesewir her broffesiynol ac fe'i defnyddir i gryfhau arfer. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant dysgu cryf drwy fforymau myfyriol amlddisgyblaethol rheolaidd, lle mae'r ymarferwyr a phartneriaid yn archwilio sefyllfaoedd cymhleth gyda'i gilydd. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi her adeiladol, dealltwriaeth gyffredin o risg ac yn cynnig gwybodaeth fanylach am brofiad plant. O ganlyniad, caiff y broses gwneud penderfyniadau ei chryfhau a chaiff gwaith cynllunio diogelwch ei lywio gan ystod eang o safbwyntiau proffesiynol.

## 5 Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6 Methodoleg

**Gwaith maes**

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 25 o blant drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 21 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, a/neu ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a chyfarfodydd, â phedwar plentyn neu berson ifanc a phump rhiant a/neu ofalwr maeth.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 44 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys Pennaeth Gwasanaeth, Prif Swyddogion, Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol).
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy grwpiau ffocws, â 15 o gynrychiolwyr sefydliadau partner (gan gynnwys yr heddlu, iechyd, sefydliadau'r trydydd sector ac addysg).
- Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod panel CMET, cyfarfod diogelu wythnosol a sesiwn goruchwylio cymheiriaid ar gyfer cynllunio gofal â chymorth.
- Gwnaethom fynychu Info-Nation, sef gwasanaeth gwybodaeth a chyngor amlasiantaethol i bobl ifanc 11–25 oed a gwnaethom ymweld â chanolfan adnoddau Blemmyes a chyfarfod â'r tîm cyswllt teuluol a gweithiwr Reflect.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 41 o bobl (plant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr), 79 o gynrychiolwyr asiantaethau partner a 160 o ymarferwyr wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7 Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

## 8 Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |

| | |
|---|---|
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |

| | |
|---|---|
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |